Cymdeithas y Cyfreithwyr
The Law Society

Gweithdrefnau gwyngalchu arian

O dan reoliadau newydd y llywodraeth mae'n rhaid i chi brofi pwy ydych os ydych yn gleient newydd neu os nad yw eich cyfreithiwr wedi derbyn cyfarwyddiadau gennych ers peth amser.

Pam?

Mae'r DU yn ganolfan ariannol a chyfreithiol ryngwladol o bwys, ac iddi enw da am onestrwydd a chywirdeb.

Yn anffodus, dyma pam mae busnesau ariannol a phroffesiynol, fel banciau a chwmnïau cyfreithwyr, yn denu'r rhai sydd am wyngalchu arian – troseddwyr sydd weithiau'n ceisio cuddio arian wedi'i ddwyn drwy ei droi'n incwm dilys. Mae'r llywodraeth wedi cyflwyno mesurau:

- I'w gwneud hi'n fwy anodd i droseddwyr ennill arian drwy eu troseddau a'i gadw
- I atafaelu elw troseddau

Am y rheswm hwn mae'n rhaid i gyfreithwyr gynnal gwiriadau gorfodol mewn perthynas â'u cleientiaid.

Os bydd cyfreithiwr yn gofyn i chi am brawf adnabod nid yw hynny'n golygu eich bod yn cael eich amau. Mae'r gofynion prawf adnabod newydd yn gymwys i bob cleient pan fydd yn gofyn i'w gyfreithiwr ymgymryd â mathau penodol o achosion.

Sut mae hyn yn effeithio arnoch chi

Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i chi ddangos rhai dogfennau personol i'ch cyfreithiwr neu rywun sy'n gweithredu ar ei ran. Gall y rhain gynnwys:

- Pasbort llofnodedig cyfredol
- Trwydded yrru â llun
- Llyfr budd-daliadau
- A bil nwy, bil trydan neu fil cartref arall diweddar

Os na fydd y dogfennau hyn gennych, bydd yn rhaid i chi ofyn i'ch cyfreithiwr am gyngor ar y ffordd orau o brofi pwy ydych chi.